# Gwasanaeth Tân ac Achub

# Gorllewin Cymru




# Cynllun Gwella Busnes Blynyddol 2023/2024




Fersiwn Darllen Hawdd




Gallwch ofyn am yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol neu iaith wahanol.

E-bost: **mail@mawwfire.gov.uk**

Ffôn: **0370 6060699**



Mae'r Gwasanaeth Tân eisiau gwneud y gorau y gallan nhw dros y gymuned.




Mae **Cynllun Strategol** 2022 – 2027 yn dweud sut fydd y gwasanaeth yn gwneud hyn.




Mae'r cynllun yma'n dangos yr **ymrwymiadau** y mae'r Gwasanaeth eisiau eu cyflawni. Nodau'r Gwasanaeth yw'r rhain.




Dyma ein nodau ar gyfer y flwyddyn yma.

Rydyn ni wedi galw nhw'n **Amcanion Gwelliant a Lles.**

**Ein Hymrwymiadau yw:**



**Ymrwymiad Un** – byddwn ni'n cyflogi, cadw ac yn hyfforddi gweithlu gyda llawer o sgiliau sy'n cynnwys llawer o fathau gwahanol o bobl.



**Ymrwymiad Dau** – byddwn ni'n cefnogi iechyd, lles a chyfoeth ein cymunedau.



**Ymrwymiad Tri** - byddwn ni'n gwneud ein gorau dros yr amgylchedd.



**Ymrwymiad Pedwar** - byddwn ni'n gweithio'n well drwy ddysgu fel gwasanaeth.

# Gwelliant a Lles

## Amcan Un



Byddwn ni'n sicrhau bod pobl sy'n gweithio i ni'n cael profiad da.




Byddwn ni'n gwneud lles yn bwysig.



Byddwn ni'n sicrhau bod pawb yn cael eu croesawu i weithio gyda ni.



Rydyn ni eisiau i bobl feddwl y byddai gweithio gyda ni yn beth da.




Bydd ein staff yn cael y cyfle i ddysgu a thyfu yn ein gwasanaeth.

## Pam mae hyn yn bwysig



Mae'n dda i bawb pan fydd y bobl sy'n gweithio gyda ni'n hapus ac yn hyderus.



Bydd rhoi hyfforddiant a chefnogaeth i'n timau ni'n rhoi hyder iddyn nhw wneud eu swyddi'n dda.



Mae cefnogi ein staff yn rhoi'r hyder iddyn nhw ymwneud â phob rhan o'r Gwasanaeth.



Bydd cefnogi ein staff yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n rhoi'r gwasanaeth gorau i'n cymuned ni.



Ein staff ni yw'r rhan fwyaf pwysig o'r Gwasanaeth. Bydd staff yn gwneud y gorau y gallan nhw pan fyddwn ni'n rhoi cefnogaeth dda iddyn nhw.



Rydyn ni eisiau cynrychioli'r gymuned rydyn ni'n gweithio ynddi.



Mae hynny'n golygu dod o hyd o staff sy'n:

- Siaradwyr Cymraeg
- O gefndiroedd gwahanol
- O grwpiau gwahanol




Mae'n bwysig bod arian cyhoeddus yn mynd tuag at wneud tîm da.

## Beth rydyn ni'n mynd i wneud



Dydy ymladdwyr tân ar-alw ddim yn gweithio trwy'r amser. Maen nhw'n gwneud swyddi bob dydd ond yn gweithio gyda ni pan fyddwn ni'n galw arnyn nhw.



Byddwn ni'n chwilio am ffordd well i ni ddod o hyd i ymladdwyr tân ar-alw.



Byddwn ni'n edrych ar ffyrdd gwahanol o weithio a fydd yn fwy hawdd i bobl sydd eisiau gweithio gyda ni.



Byddwn ni'n dechrau **system arfarnu** newydd. **Mae hyn yn golygu siarad â'n staff i gael gwybod beth maen nhw ei eisiau a'i angen i wneud eu swyddi'n dda.**




Byddwn ni'n siarad â'n timau i ddarganfod beth sy'n dda am weithio i ni. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddod o hyd i bobl newydd a'u cadw nhw.



Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n dod o hyd i bobl newydd sy'n dda ac sy'n rhan o'r gymuned gyfan.

## Sut fyddwn ni'n gwybod a ydyn ni wedi gwella?



Bydd mwy o'n tîm yn gweithio gyda ni i wneud pethau'n well.



Bydd llai o bobl yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith achos eu bod nhw'n sâl.



Bydd pobl yn gwybod mwy amdanom ni a'r mathau o swyddi yn y Gwasanaeth.




Bydd mwy o bobl yn ymgeisio am waith gyda ni.



Byddwn ni'n gweld hyfforddiant gwell.



Bydd ein staff yn aros gyda ni am amser hirach oherwydd y byddan nhw'n fwy hapus yn y gwaith.

# Gwelliant a Lles Amcan Dau



Mae ein busnes ni'n cael effaith ar ein cymunedau. Byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ni wneud hyn yn well i bawb.

## Pam mae hyn yn bwysig




Mae'r Gwasanaeth yn fawr.
Mae'r ffordd rydyn ni'n gwario arian yn bwysig.



Mae'n well i bawb pan fyddwn ni'n prynu pethau'n lleol.




Y cyhoedd sy'n talu am y Gwasanaeth.
Mae angen i ni gael system dda er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwario arian yn well.



Rydyn ni eisiau sicrhau bod pawb yn ddiogel trwy newid y ffordd rydyn ni'n gweithio er mwyn cwrdd ag anghenion ein cymuned yn well.



Rydyn ni'n gweithio gyda phob rhan o'r gymuned i atal tân rhag digwydd.




Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gyda phartneriaid yn ein cymuned. Mae hyn yn helpu i:

- Osgoi gwneud gwaith dwywaith
- Gwario arian yn well
- Gwella'r gymuned

## Beth rydyn ni'n mynd i wneud




Byddwn ni'n edrych ar beth rydyn ni'n gwneud ar gyfer diogelwch cymunedol.




Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwneud y pethau iawn ar gyfer y dyfodol.



Byddwn ni'n meddwl am ba mor dda rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid a sut y byddai hynny'n helpu'r gymuned.




Byddwn ni'n parhau i ddweud wrth bobl i ddefnyddio ein Gorsafoedd Tân.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwella



Bydd gennym ni gysylltiadau gwell â'r gymuned a byddwn ni'n cymryd rhan yn y gymuned yn fwy.



Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rannu i helpu'r gymuned.



Bydd pobl yn dechrau defnyddio Gorsafoedd Tân yn fwy ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.



Bydd  mwy o gyfathrebiadau rhwng y Gorsafoedd Tân a'r gymuned.

# Gwelliant a lles

## Amcan tri



Byddwn ni'n anelu at fod yn **Sero Net** erbyn 2030.

**Mae hynny'n golygu mynd yn garbon niwtral.**

### Pam mae hyn yn bwysig



Bydd sicrhau ein bod ni'n cael llai o effaith ar yr amgylchedd yn ein helpu ni i fod yn fwy cynaliadwy.



Mae angen i ni wneud ein rhan i ofalu am y planed.



Rydyn ni eisiau gweithio gyda chymunedau i ddeall eu hanghenion nhw gyda'r amgylchedd.



Mae gwneud yn siŵr bod gennym ni natur a bywyd gwyllt da ar ein tir yn dda ar gyfer:

- Natur
- Ansawdd aer
- Lles ein staff

## Beth rydyn ni'n mynd i wneud




Byddwn ni'n dechrau defnyddio **offeryn Asesu Amgylcheddol**. Bydd hyn yn helpu ni i wybod pa mor dda rydyn ni'n gwneud.



Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i edrych ar faint o ddŵr rydyn ni'n defnyddio mewn digwyddiadau.



Byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ni ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau sy'n dda i'r amgylchedd.



Byddwn ni'n dysgu ein timau am fynd yn garbon niwtral a sut y gallan nhw helpu ni i gyflawni hynny.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwella



Byddwn ni'n gweld llai o ddŵr a llai o garbon yn cael eu defnyddio bob blwyddyn.



Bydd gwybod faint o garbon rydyn ni'n defnyddio nawr yn helpu ni i ddod o hyd i ffyrdd o gyrraedd targed Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus i gyd fod yn garbon niwtral.



Byddwn ni'n well wrth ddiogelu'r amgylchedd pan fyddwn ni'n ymladd tân ac yn achub pobl.



Byddwn ni'n gofyn i bobl eraill ddweud wrthyn ni pa mor dda rydyn ni'n gwneud ac a ydyn ni'n cyrraedd **sero net**.

**Mae sero net yn golygu mynd yn garbon niwtral.**

# Gwelliant a Lles Amcan Pedwar



Byddwn ni'n darparu cyfleoedd ar gyfer pob math o ddysgu yn y gwaith fel y gall pobl wella.

## Pam mae hyn yn bwysig



Mae dysgu yn y gwaith yn allweddol ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn gwneud pethau mor ddiogel â phosib.




Rydyn ni eisiau sicrhau bod y ffordd rydyn ni'n gweithio'n drefnus a mor ddiogel â phosib ar gyfer ein pobl.

## Beth rydyn ni'n mynd i wneud



Dod o hyd i ffordd o ddangos yr holl wybodaeth ddysgu ar draws y Gwasanaeth, gan gynnwys adborth da a gwael.



Edrych ar ffyrdd o ddarparu dysgu ar draws y Gwasanaeth.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwella



Byddwn ni'n derbyn adborth da ar ddysgu ac ar y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud.



Byddwn ni'n gweld gwelliannau yn y ffordd rydyn ni'n gweithio a fydd yn helpu pawb.



Mwy o gyfathrebu gyda phobl am eu dysgu yn y gwaith.

# Gwelliant a Lles Amcan Pump




Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n casglu gwybodaeth sy'n gallu helpu ni i gynllunio a gweithio'n well.

**Pam mae hyn yn bwysig.**



Rydyn ni eisiau i'n Gwasanaeth wneud y gorau sy'n bosib. Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni ar gyfer diogelwch pawb.




Mae llawer o newidiadau i Wasanaethau Tân ac Achub yn y DU. Mae adolygiadau o gyfreithiau a dyletswyddau.



Rydyn ni eisiau bod yn rhan o'r adolygiadau fel y gallwn ni sicrhau mai dyna'r peth gorau ar gyfer ni ac ar gyfer ein cymunedau.



Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod ni'n defnyddio ein hadnoddau i gyd i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gweithio'n galed i ni.




Rydyn ni eisiau sicrhau bod unrhyw risgiau mor isel â phosib.

## Beth rydyn ni'n mynd i wneud




Bydd rheolau newydd o'r enw Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.




Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n barod ar gyfer y rheolau newydd.




Byddwn ni'n dal i wirio'r ffordd yr ydyn ni'n derbyn gwybodaeth, ac yn ychwanegu gwybodaeth newydd os bydd angen.



Byddwn ni'n gwirio pa wybodaeth sydd gan ein partneriaid ac yn ystyried sut y gallai hynny fod yn ddefnyddiol i ni.




Gwneud yn siŵr ein bod ni'n defnyddio ein gwybodaeth i gynllunio sut i gadw'r gymuned yn ddiogel.



Siarad â'n staff i sicrhau bod gennym ni'r wybodaeth orau am beth sy'n digwydd yn lleol.



Defnyddio ein gwybodaeth i benderfynu ar y lle gorau i roi ein staff ni a'n hoffer ni.




Gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio o fewn y gyfraith.



Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod ni'n gwneud ein gorau dros bawb.

## Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi gwella




Bydd yr wybodaeth y byddwn ni'n ei chasglu'n helpu ni i gynllunio ar gyfer ein cymunedau.




Bydd cynllun risg gymunedol gennym ni. Bydd hyn yn ein helpu ni i gael y staff a'r offer iawn yn y lle iawn.

# Mwy o wybodaeth




Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan:

**www.mawwfire.gov.uk**



Os oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut y gallwn ni wneud yn well yn y dyfodol gallwch chi gysylltu â ni yn:



Ffôn: **03706060699**




E-bost: **mail@mawwfire.gov.uk**



Ysgrifennwch atom yn:

**Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru**

**Rhodfa Lime Grove**

**Caerfyrddin**

**SA31 1SP**

# Gwiriad Diogelwch Tân yn y Cartref



Gallwch chi ofyn i ni wirio bod eich cartref yn ddiogel trwy:




Ffôn: **08001691234**

Neu

Gwefan: **www.mawwfire.gov.uk**

**Dilynwch ni ar:**



Facebook: **facebook.com/mawwfire**

Trydar: **@mawwfire**

Instagram: **mawwfire_rescue**

**Crëwyd y fersiwn darllen hawdd hwn gan Planet Easy Read**

**Rydyn ni'n defnyddio PhotoSymbols**